Cartrefi Conwy

Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt

Creating communities to be proud of

# Gwrando, deall a chywiro pethau

## Sut gallwch gysylltu gyda ni

Ffôn: **0300 124 0040**

Ebost: **ymholiadau@cartreficonwy.org**

Gwefan: **cartreficonwy.org**

(Twitter gynt): **@CartrefiConwy**

Facebook: **OfficialCartrefiConwy**

Ysgrifennwch atom neu anfon ffurflen gwyno at: **Morfa Gele, Parc Busnes Gogledd Cymru, Cae Eithin, Abergele LL22 8LJ** neu ymweld â ni yn y cyfeiriad hwn.

Mae'r wybodaeth yma ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd.

Cartrefi Conwy

## Sylwadau

A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau a fyddai'n gwella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i chi? Os oes, siaradwch gyda ni.

Weithiau, gall awgrym neu sylw bach arwain at welliant mawr yn y ffordd rydym yn gwneud pethau.

## Canmoliaeth

Os credwch ein bod yn gwneud rhywbeth yn dda, neu fod aelod o staff wedi rhoi gwasanaeth gwych neu wedi mynd y filltir ychwanegol, rhowch wybod i ni.

Bydd popeth a ddywedwch yn cael ei basio i'r bobl dan sylw.

## Cwynion

### Cam 1

Gallwn ddatrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym ac yn anffurfiol. Siaradwch gyda'r person rydych yn delio a hwy, neu eu Rheolwr os byddai'n well gennych wneud hynny.

### Cam 2

Os yw eich cwyn yn fwy difrifol, neu os ydych yn anfodlon â'r ffordd rydym wedi delio â'ch cwyn yn anffurfiol, bydd uwch reolwr yn ymchwilio eich cwyn.

Os ydych wedi dilyn ein gweithdrefn cwynion ffurfiol a'ch bod yn parhau i fod yn anfodlon, yna gallwch ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio eich cwyn.

Ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
Ysgrifennwch: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd Yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ

## Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i gopi o'n ffurflen bryderon a chwynion a'n polisi ar ein gwefan. Os oes angen mwy o help arnoch i wneud cwyn, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Gallwch hefyd gysylltu â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, eich gwasanaeth Eiriolaeth leol (cymorth gan berson arall i'ch helpu i fynegi eich barn a'ch dymuniadau) Age Cymru neu Shelter Cymru a allai eich helpu.

## Dywedwch sut y gwnaethom

Byddwn yn gofyn ichi beth rydych chi'n ei feddwl o'r gwasanaeth cwynion. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i wella'r modd yr ydym yn trin cwynion yn y dyfodol.